## Ymateb Rhanbarth Caerfyrddin Cymdeithas yr Iaith i ymgynghoriad ar Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo Sir Gaerfyrddin 2018 -2033

**Sylwadau cychwynnol**

Cydnabyddwn fod amcanion y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig yn uchelgeisiol a bod dyhead y Cyngor Sir i hwyluso creu swyddi o ansawdd uchel yn un clodwiw. Wedi dweud hynny a wedi dadansoddi'r dogfennau perthnasol, rhaid i ni fynegi pryderon difrifol am effaith y cynllun ar y Gymraeg a rhai o gymunedau ac ardaloedd Cymreiciaf Sir Gâr.

Credwn nad yw elfennau allweddol o'r cynllun diwygiedig yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn, a bod tipyn o waith i'w wneud i sicrhau dyfodol hyfyw i'r Gymraeg cyn i'r Cyngor gyflwyno'r Cynllun Adneuo i'r Llywodraeth. Nid oes unrhyw ddadansoddiad o sut y gall creu nifer sylweddol o swyddi mewn un gornel o'r sir gyflawni'r nod o atal yr allfudiad difrifol o bobl ifainc o'n cymunedau ledled y sir. Camgymeriad sylfaenol yw fod y Cynllun yn trin adfywiad economaidd ac adfywiad iaith a chymunedol fel dau beth ar wahân yn lle ystyriaeth fanwl o ba fath ar ddatblygu economaidd a fydd o fudd pennaf i'r iaith ac i'n cymunedau.

Er bod "gwarchod, gwella a hyrwyddo'r Gymraeg a hunaniaeth ddiwylliannol" yn un o Amcanion Strategol y Cynllun dydy cynnwys y Cynllun ei hun ddim yn adlewyrchu hynny.

Ymhellach, mae Strategaeth Hybu'r Gymraeg y Cyngor yn cynnwys y nod o wneud y Gymraeg yn brif iaith y sir. Dydy'r Cynllun Datblygu Lleol ddim yn cyfeirio at hynny o gwbl, ac yn gweithio yn erbyn hynny.

**Anghenion tai ac amcanestyniadau poblogaeth**

Fel gyda'r yr ail Gynllun gwrieddiol, mae'n anodd peidio â dod i'r casgliad i'r Cyngor Sir ofyn faint o dai fyddai eu hangen er mwyn cyflawni amcanion ei strategaeth adfywio gan fod nifer y tai wedi ei seilio ar Adroddiad Tai a Thwf Economaidd (Twf Poblogaeth) Turley.

Mae’r cynllun yn cydnabod y bu dirywiad sylweddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg dros y degawdau diwethaf, felly rhaid gofyn pam bod yr ail Gynllun Datblygu Lleol wedi ei seilio ar amcanestyniad deng mlynedd yn Adroddiad Tai a Thwf Economaidd (Twf Poblogaeth) Turley.
Roedd y Cynllun Datblygu Lleol cyntaf wedi ei seilio ar amcanestyniad poblogaeth hefyd, ac yn cynllunio ar gyfer twf.

Mae’r Cynllun Adneuo’n disgwyl twf o 14,468 ym mhoblogaeth y Sir a bod angen 8,822 o dai er mwyn cyflawni amcan o greu 4,140 o swyddi.

Anghytunwn gyda'r Opsiwn a Ffefrir, sef Strategaeth Twf Cynaliadwy a Chymuned Gytbwys felly.

Bydd canolbwyntio'r twf mewn dwy ardal yn nwyrain y sir, Llain Arfordirol Llanelli ac ardal Rhydaman / Cross Hands, yn annog mewnlifiad trwy greu pentrefi cymudwyr.

Mae'r Adroddiad ar yr Ymgynghoriad Cychwynnol yn nodi, mewn ymateb i sylwadau Cymdeithas yr Iaith i bryderon am seilio Cynllun Datblygu Lleol ar gynllun economaidd:

*"Further evidence will be produced to inform the economic needs of the County and its impacts upon the County's housing needs."*

Mae sylwadau Llywodraeth Cymru i’r ymgynghoriad gwreiddiol hefyd yn nodi:

*“Further evidence and explanation is required to explain how and where the level of job growth will be delivered, including both strategic and non strategic allocations. It is unclear what the level of employment provision is and for what sector and how this translates into a land requirement for employment uses. The current employment evidence base is inconsistent and unclear.*

*“The authority must fully justify/evidence that the growth levels are directed to the most sustainable places, related to the scale and location of housing need, not impacting negatively on the Welsh language and is realistic and deliverable.”*

Does dim cyfeiriad yn y dogfennau diweddaraf at dystiolaeth bellach o effaith nac anghenion yn sgil datblygiadau economaidd.

Dylai’r cyngor gyd-gynhyrchu Asesiad Cymunedol rheolaidd ym mhob ardal o'r sir gyda chymunedau fel partneriaid cyfartal.

## Y Gymraeg

Er bod “Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg, Rhagfyr 2019” bellach wedi ei gyhoeddi ymddengys nad yw Asesiad o Effaith CDLl diwygiedig Adneuo Drafft Sir Gaerfyrddin ar y Gymraeg, 2023, ar gael.
Dyma fyddai’r dystiolaeth fwyaf perthnasol o ran y Gymraeg.

## Polisi, Y Gymraeg a Diwylliant Cymru

Mae geiriad polisi SP8 yn achos pryder:

*“Ni fydd cynigion datblygu sy'n cael effaith anfanteisiol ar fywiogrwydd a hyfywedd y Gymraeg a diwylliant Cymru'n cael eu caniatáu oni bai y gellir lliniaru'r effaith.”*

Trwy fynnu mesurau lliniaru mae cydnabod bod effaith negyddol i’r Gymraeg, ac yn unol â’u diffiniad, nid atal effaith negyddol fydd unrhyw fesurau lliniaru ond lleihau’r effaith hynny.

Mae Cymdeithas yr Iaith yn croesawu penderfyniad y Cyngor Sir i ddynodi’r sir gyfan yn ardal yn ieithyddol sensitif eto ond mae angen i’r Cynllun adlewyrchu mor fregus yw’r cymunedau hynny, trwy seilio’r Cynllun ar angen am dai.

Tra yn cytuno ag amcan cymal 11.174 i greu swyddi a chyfleoedd er mwyn galluogi pobl i aros yn y sir anghytunwn bod y twf sy'n cael ei gynllunio yn "gynaliadwy" ac y bydd y Cynllun yn *"cynyddu i'r eithaf y cyfleoedd i siaradwyr di-Gymraeg sy'n symud i mewn i'r Sir gael eu hintegreiddio i fywyd cymunedol ar raddfa a chyflymder na fydd yn tanseilio bywiogrwydd a hyfywedd y Gymraeg a diwylliant Cymru.”*

Pryderwn bod cymal 11.176 yn nodi y bydd:

*“ceisio sicrhau bod datblygu'n mynd rhagddo ar raddfa y gellir ei derbyn a'i chymhathu heb niweidio cymeriad y gymuned.”*

Mae “ceisio sicrhau” yn groes i’r egwyddor yng nghymal 11.174 y bydd integreiddio ar raddfa gynaliadwy.

**<u>WL1: Y Gymraeg a Datblygiadau Newydd</u>**

Mae'n galonogol bod y polisi ei hun yn glir mai bwriad y Cynllun Gweithredu Iaith Gymraeg fyddai nodi mesurau "i ddiogelu, hyrwyddo a gwella'r Gymraeg", ond mae cymal 11.179 yn cyfeirio at “fesurau lliniaru” Cynllun Gweithredu, sy’n awgrym mai mesurau lliniaru sydd mewn golwg mewn gwirionedd.

Yn ogystal, nodwn eto bod Strategaeth Hybu’r Gymraeg y cyngor yn gosod nod o wneud y Gymraeg yn brif iaith y sir, ac nad yw polisi WL1 yn cyd-fynd â hynny.

Mae’n galonogol hefyd bod y polisi yn rhoi disgwyliadau bod Cynllun Gweithredu Iaith Gymraeg yn dangos bod y datblygiad yn cyfrannu’n gadarnhaol i grwpiau iaith Gymraeg yn yr ardal.

Dydy hi ddim yn glir beth fyddai'n cael ei ystyried yn ddatblygiad ar "raddfa fawr" ac a fyddai'n gymwys i baratoi Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg.

Credwn bod angen ffigyrau penodol yn yr achos yma, a nodi canran ychwanegol o dai yn achos datblygiad tai neu ganran o weithwyr a phoblogaeth yn achos datblygiadau cyflogaeth.

Nid oes unrhyw sôn o gwbl am y Gymraeg yn y Profion Cadernid. Os mai nod y Cynllun yw “'hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant” oni ddylai hynny fod yn rhan o Brofion Cadernid?

**Crynodeb**

Mae Cymdeithas yr Iaith yn rhannu’r farn gyffredin i’r Cynllun Datblygu Lleol presennol fod yn fethiant, ac roeddem yn gobeithio y byddai’r Cyngor achub ar y cyfle pellach hwn i lunio cynllun diwygiedig a fyddai’n newid cyfeiriad trwy flaenoriaethu lles cymunedau ledled y Sir a rhoi lle canolog i’r Gymraeg.

Siomedig felly yw gweld strategaeth gorfforaethol sydd yn canolbwyntio ar gyflawni ychydig o ddatblygiadau yn ne a dwyrain y Sir yn hytrach na rhaglen arloesol o hyrwyddo datblygiadau a chyfleoedd cyflogaeth ar raddfa llai ledled Sir Gaerfyrddin.

Teimlwn yn gryf fod diffyg tystiolaeth o ran y dyraniadau tai a safleoedd cyflogaeth. Nid yw gobaith ac uchelgais yr un peth â thystiolaeth.

Croesawn rai o’r camau y mae’r Cyngor am eu gwneud i liniaru ac asesu effaith datblygiadau ar yr iaith ond mae cryn dipyn o waith i’w wneud o hyd, a’r pryder yw y caiff buddiannau cymunedau Cymraeg eu gosod yn ail i amcanion strategaeth adfywio’r Cyngor Sir, strategaeth sydd yn ei hanfod yn edrych yn hen ffasiwn erbyn hyn.

Rhanbarth Caerfyrddin, Cymdeithas yr Iaith
Ebrill 2023